

Am flynyddoedd lawer bu gan William Bulkeley ddau gymydog agos a ymddiddorai mewn llyfrau llawysgrif a phrint. Bu Richard Bulkeley 1680-1757, 'Person Mechell' y Morrisiaid, yn rheithor Llanfechell o 1730 hyd ei farw, gan drigo yn y rheithordy a saif fawr mwy na lled cae o gefn y plas. Tua'r un pellter o'r Brynddu ond i gyfeiriad arall mae ffermdy Bodelwyn, cartref David Williams, 1669-1751, gŵr o dras bonheddig. Ceir tystiolaeth fod dwy ffurf, Bodeulwyn a Bodelwyn, yn bodoli yn y 18 ganrif ond Bodelwyn yn unig a glywir heddiw.

Mab plasy bychan y Dronwy ym mhilwyf Llanfachreth oedd Richard Bulkeley. 'Roedd yn berthynas pell i'r sgweiar ac yn or-wyr i ddyddiadurwr arall o Fôn, sef Robert Bulkeley. Cyfnod ei ddyddiadur ef (Llsg LLGC.3150B) yw'r blynyddoedd 1630-36. 'Roedd Richard Bulkeley yn fardd ac yn ysgolhaig - cynorthwyodd Richard Morris i ddwyn allan argraffiad 1752 o'r *Llyfr Gweddi*. Dyma'r gŵr a ddisgrifir gan Richard fel hyn, 'Hen ŵr mwyn diniwaidd, cywraint, llariaidd, cwrtais, Cymroaegydd goreu mae'n debyg ym Mon.' Cyfeiria Lewis yntau ato yng *Nghywydd y Falwen*. Er bod William Bulkeley yn y dyddiadur yn feirinadol iawn o bregethau'r rheithor ac yn priodoli iddo hoffter o arferion oedd yn sawro o Babyddiaeth, y mae hefyd yn ei gwneud yn gwbl glir yno fod y ddau yn gryn ffrindiau, e.e. cawn glywed amdanynt yn cyd-yfed ac yn cyd-saethu. Tanysgrifiodd Richard Bulkeley i o leiaf chwech o lyfrau print ei ddydd, yn eu plith y gweithiau gan Lewis Morris, Nourse, Farrington a Valentine a brynwyd hefyd gan ŵr y plas. Daeth y cyfieithiad o waith Valentine o'r wasg cyn iddo gyrraedd Llanfechell; curad Llanfihangel Ysceifiog ydoedd pan dalodd ymlaen llaw am hwnnw. Y ddau lyfr arall a brynwyd gan Richard Bulkeley oedd yr ail argraffiad o *Trefn ymarweddiad gwir Gristion* Edward Wynn (Y Mwythig, 1723-24) a *Difyrrwch crefyddol* John Prichard Prys (Y Mwythig, 1721). Talodd am lyfr Wynn pan oedd yn gwasanaethu plwyf Llanfihangel Ysceifiog; ymddengys ei enw yn rhestr tanysgrifwyr *Difyrrwch crefyddol* fel hyn 'The Rd. Mr Richard Bulkeley of Dronwy Clr.' Ni wn am unrhyw lyfr print a fu'n eiddo i'r rheithor ond gall fod ambell gyfrol yn hechu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus neu breifat.

Gwyddys fod Richard Bulkeley yn berchen llawysgrifau gan fod Lewis

Morris yn ei *Account of manuscripts in Wales...* yn dweud hyn, 'Mr Bulkeley of Dronwy Rector of Mechell hath some few MSS and is curious in that way.' Un



Lewis Morris (1701-65)

llawysgrif y bu'n berchen arni yw Bodewryd 101 (yn LLGC), sef casgliad o awdlau gan William Cynwal yn llaw y bardd ei hun. Ceir nodyn ynddi a ddengys iddo ei derbyn yn y flwyddyn 1746. Yng Nghasgliad Papurau Penrhos yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor gellir gweld cerddi yn ei law, rhai ohonynt o'i waith ef ei hun. Argraffwyd ychydig o englynion ganddo yn y *Diddanwch teuluaid* a ymddangosodd gyntaf yn 1763.


### Lewis Morris yn benthyca llawysgrif

Brodor o'r plwyf oedd David Williams, Bodelwyn a chymydog agos i'r sgweiar gydol ei oes. Digwydd cyfeiriadau at y gŵr hwn yn y dyddiadur ac yn *Account of manuscripts in Wales...* Lewis Morris,

Ymddengys ei enw yn yr olaf mewn rhestr dan y pennawd, 'Other smaller collections.' Gellir enwi rhai llawysgrifau a fu yng nghasgliad David Williams. Yn eu plith y mae Bodewryd 101 y cyfeiriwyd ati eisoes. Ceir nodyn yn hon i'r perwyl i David Williams ei rhoi i'w gymydog Richard Bulkeley y rheithor yn 1746. Mae tystiolaeth fewnol yn ei gysylltu hefyd â Llsg Sotheby B2 (yn LLGC) a Pheniarth 104 (yn LLGC) ac fe wyddys i Lsg Llyfrgell Brydeinig 14916 fod yn ei feddiant. Llawysgrif achyddol a gopiwyd yn 1579 gan Ieuan ap Siôn Wyn yw hon. Noda Lewis Morris mewn llythyr iddo fenthycia llawysgrif achyddol gan David William Bodelwyn. Rhydd ddigon o fanylion amdani i ganiatau ei hadnabod fel y llawysgrif sydd bellach yn Llundain. Goroesodd o leiaf un llawysgrif yn llaw David Williams ei hun, sef Llsg LLGC 836D, un arall o lawysgrifau Tŷ Coch. Lluniodd Williams hon yn y cyfnod 1718-42, gan roi iddi'r teitl. *Piser Alice uch Rees*. Amrywiaeth ydyw o gerddi Cymraeg, Saesneg a Lladin a deunydd achyddol a hanesyddol, am Fôn yn bennaf.

### Y Dictionarium duplex yng nghasgliad J. Glyn Davies

Llwyddais i olrhain enw David Williams Bodelwyn yn rhestr tanysgrifwyr un o lyfrau Cymraeg/Cymreig y cyfnod. *Defosiwnau priod* Henry Valentine (Y Mwythig [1722?]) yw hwnnw, cyfrol a brynwyd hefyd gan ei gymdogion Richard Bulkeley a William Bulkeley. Daeth ei gopi o eiriadur enwog John Davies Mallwyd y *Dictionarium duplex* (Llundain, 1632) i'r Llyfrgell Genedlaethol cyn yr Ail Ryfel Byd (Casgliad J. Glyn Davies, Papurau amrywiol etc.; 11). Rhwng dalennau P3 a



Nodyn perchnogaeth wedi ei argraffu ar y tudalen ac nid label argraffedig wedi ei llynu ar dudalen lân a geir yma.